



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Addysg a Gwella Iechyd  
Cymru (AaGIC)  
Health Education and  
Improvement Wales (HEIW)

# Canllawiau ar gyfer

## Nyrsio Iechyd Cyhoeddus

### Cymunedol Arbenigol (SCPHN)

---



---

## Cynnwys

---

- Tudalen 3
- Cyflwyniad
  - Proses Ariannu
- Tudalen 4
- Dyrannu a Monitro
- Tudalen 5
- Diogelu Data
  - Cofrestru
- Tudalen 6
- Treuliau Teithio
  - Toriad astudiaethau
- Tudalen 7
- Tudalennau Gwe'r Brifysgol
  - Manylion cyswllt



---

## Canllawiau

---

### Cyflwyniad

Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn gyfrifol am gomisiynu addysg a hyfforddiant i ddiwallu anghenion y GIG yng Nghymru. Mae hyfforddi myfyrwyr ar gyrsiau SCPHN yn gynwysedig yn y cylch gwaith hwn ac mae'r nodiadau dilynol yn rhoi eglurhad o'r trefniadau manwl ar gyfer cyllido'r hyfforddiant ar sail Cymru gyfan.

Mae'r cyrsiau SCPHN y mae AaGIC yn eu comisiynu ar hyn o bryd drwy broses y Cynllun Tymor Canolig Integredig, fel a ganlyn:

- Ymwelwyr Iechyd (Llawn-amser, Rhan-amser a Modiwlau)
- Nyrsio Ysgolion (Llawn-amser, Rhan-amser a Modiwlau)
- Nyrsio Iechyd Galwedigaethol (Llawn-amser, Rhan-amser a Modiwlau)

Diffinnir cyrsiau llawn-amser, rhan-amser a modiwlauidd fel a ganlyn:

Llawn-amser: Mae hwn yn gwrs parhaus 45 wythnos llawn-amser gyda chynnod cyfnerthu sy'n cymryd hyd at 52 wythnos i'r myfyriwr. Yn ystod y cynnod hwn bydd myfyrwyr yn cwblhau'r holl fodiwlau gofynnol i ennill y cofrestriad proffesiynol. Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, mae myfyrwyr yn gymwys i gael eu henw wedi'i gynnwys ar Gofrestr Broffesiynol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fel Nyrs Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol.

Rhan-amser: Ymgymerir â'r llwybr rhan-amser ar sail rhan-amser ac fel arfer mae modd ei gwblhau dros gyfnod o 2 flynedd. Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, mae myfyrwyr yn gymwys i gael eu henw wedi'i gynnwys ar Gofrestr Broffesiynol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fel Nyrs Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol.

Modiwlau: Mae myfyrwyr yn ymgymryd ag un modiwl penodol neu fwy ohonynt a draddodir **dros gyfnod o amser amhenodol**. Ar ôl cwblhau'r modiwlau angenrheidiol a'r oriau clinigol yn llwyddiannus, mae myfyrwyr yn gymwys i gael eu henw wedi'i gynnwys ar Gofrestr Broffesiynol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fel Nyrs Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol.

Caiff cyrsiau llawn-amser, rhan-amser a modiwlauidd eu hariannu gan AaGIC, hyd at yr adeg gofrestru fel nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol **yn unig**. Bydd angen sicrhau cyllid amgen i astudio ar lefel MSc.

Dylai myfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer lleoedd nodedig ar gyrsiau SCPHN fodloni'r amodau isod:

- Bod yn gyflogedig o fewn corff iechyd GIG Cymru ar ddechrau eu hyfforddiant a chael cydsyniad eu cyflogwr\*; neu
- Os nad oes ganddynt contract cyflogaeth GIG parhaol ar adeg cyflwyno'r cais, fe allent geisio cymorth sefydliad GIG Cymru priodol. Gallai'r sefydliad eu cyflogi ar contract hyfforddi cyfnod penodol drwy gydol y cwrs, a fydd yn darparu'r elfen o'r hyfforddiant sy'n ymwneud ag ymarfer ar leoliad. Rhaid dod i gytundeb ar hyn gyda'r sefydliad lletyol cyn bod lle yn y brifysgol yn cael ei gynnig i'r myfyriwr.
- Bod wedi cwblhau hyfforddiant nyrsio cyn-gofrestru o fewn y 12 mis diwethaf a chyda cynhaliaeth sefydliad GIG priodol ar contract hyfforddi cyfnod penodol drwy gydol y cwrs i ddarparu'r elfen o'r hyfforddiant sy'n ymwneud ag ymarfer ar leoliad. Rhaid dod i gytundeb ar hyn gyda'r sefydliad lletyol cyn bod lle yn y brifysgol yn cael ei gynnig i'r myfyriwr.

***\*Dylai pob darpar ymgeisydd am hyfforddiant ar gyrsiau SCPHN sicrhau ei fod wedi cael cydsyniad ei gyflogwr i'w ryddhau ar gyfer hyfforddiant cyn gwneud cais am le ar gwrs gyda Sefydliad Addysg Uwch (SAU) yng Nghymru.***

**Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i'r myfyrwyr hynny sy'n cychwyn ar hyfforddiant ar raglen SCPHN gyda SAU yng Nghymru o fis Medi 2016.**

## Trefniadau Cyllido

I'r myfyrwyr hynny sy'n dilyn y llwybr modiwlaid, dim ond y ffioedd cwrs sy'n cael eu hariannu gan AaGIC. Ni fydd unrhyw dreuliau teithio cysylltiedig yn cael eu had-dalu.

Bydd y weithdrefn ganlynol mewn grym yn achos cyllido myfyrwyr llawn-amser neu ran-amser sy'n cael lleoedd hyfforddi ar raglenni SCPHN gyda SAU yng Nghymru.

a) Fel arfer byddai disgwyl i ymgeiswyr sy'n cael lleoedd hyfforddi ar raglen SCPHN barhau i fod yn gyflogedig gyda'u cyflogwr presennol GIG Cymru drwy ystod y cwrs oni bai, mewn amgylchiadau eithriadol, eu bod yn cael eu penodi i sefydliad GIG Cymru arall sy'n gweithredu fel y cyflogwr lletyol hyd ddiwedd eu hyfforddiant. Yn y naill achos neu'r llall, dylid eu secondio i contract hyfforddi sefydlog hyd ddiwedd eu cwrs naill ai'n llawn-amser neu ar sail tridiau yr wythnos.

b) Bydd cyflogwr GIG Cymru neu sefydliad lletyol GIG Cymru yn talu cyflog i'r myfyrwyr fel a ganlyn:

i. Telir cyflog llawn-amser i fyfyrwyr llawn-amser ar raddfa gyflog sy'n cyfateb i'w cyflog tystiedig cyn iddynt gychwyn ar y cwrs. Os nad yw hyn yn bosibl, fe'u telir ar y raddfa gyflog uwch nesaf ar fand 5 yr Agenda ar gyfer Newid, dan gontract myfyriwr. Caiff hyn ei ad-dalu gan AaGIC.

ii. Telir cyflog cymesurol i fyfyrwyr rhan-amser ar raddfa gyflog sy'n cyfateb i'w cyflog tystiedig cyn iddynt gychwyn ar y cwrs. Os nad yw hyn yn bosibl, fe'u telir ar y raddfa gyflog uwch nesaf ar fand 5 yr Agenda ar gyfer Newid, dan gontract myfyriwr. Bydd AaGIC yn ad-dalu hyd at 2.5 diwrnod yr wythnos ar gyfer y cwrs ar ei hyd.

iii. Bydd myfyrwyr sy'n ymgymryd â rhaglen SCPHN, a letyir gan sefydliad GIG Cymru priodol, fel dilyniant i'w hyfforddiant nyrsio cyn-gofrestru israddedig yn cael cyflog ar y raddfa gyflog waelodol ar fand 5 yr Agenda ar gyfer Newid, dan gontract myfyriwr. Caiff hyn ei ad-dalu gan AaGIC.

c) Dylai cyflogwyr geisio ad-daliad costau myfyrwyr gan AaGIC drwy gyflwyno anfonebau'n rheolaidd mewn perthynas â'r canlynol:

i. Cyflog y myfyriwr ynghyd ag argostau cyflogwr dros rediad safonol y cwrs (ac eithrio goramser ac unrhyw ychwanegiadau).

ii. Treuliau teithio i'r myfyriwr yn deillio o'r lleoliad clinigol sy'n fwy na'r gost ddyddiol o deithio rhwng eu man cychwyn/cartref a'r sefydliad addysg uwch sy'n darparu'r cwrs.

Sylwch na fydd treuliau teithio o'r cartref i'r sefydliad addysg uwch ac oddi yno yn cael eu had-dalu. Y myfyrwyr sy'n ysgwyddo'r costau hyn.

iii. Dylai myfyrwyr gyflwyno bob hawliad teithio i Bennaeth Adrannol eu lleoliad i'w gymeradwyo ac yna ei dalu.

iv. Mae treuliau teithio rhesymol yn daladwy o ran teithiau i leoliadau yng Nghymru ar gyfer hyfforddeion sy'n astudio yng Nghymru. Ni ddylid ad-dalu treuliau i unrhyw fyfyrwr sydd, ar gais, yn ymgymryd â lleoliad y tu allan i Gymru er y byddai lleoliad yng Nghymru ar gael.

v. Ni fydd AaGIC yn ad-dalu taliadau ceir prydles y GIG.

vi. Bydd AaGIC yn ad-dalu costau sy'n fwy na'r ffioedd parcio safonol a ysgwyddir gan fyfyrwyr ar leoliadau clinigol. Fodd bynnag, os yw myfyriwr yn arferol yn gorfod talu ffioedd parcio yn ei ganolfan gyflogaeth, dim ond ffioedd sy'n uwch na'r swm hwn fydd yn cael eu had-dalu.

ch) Ni fydd costau llety yn cael eu had-dalu.

d) Dylai anfonebau ar gyfer ad-dalu cyflogau a chostau eraill myfyrwyr gynnwys dadansoddiad o'r costau hynny, a chael eu cyflwyno i'w talu'n fisol.

dd) Dylid labelu anfonebau i sylw Cyllid AaGIC a'u cyflwyno i AaGIC, Blwch PO 123, Pont-y-pŵl, NP4 4DW neu [nwssp.apheiw@wales.nhs.uk](mailto:nwssp.apheiw@wales.nhs.uk)

Bydd unigolion sy'n tynnu'n ôl beth o'r ffordd drwy raglen llawn-amser neu ran-amser yn ildio'r hawl i gymorth cyflog pellach, o'r adeg pan dynnir yn ôl.

## Cofrestru

Mae'n RHAIID i bob myfyriwr yn unigol gynnal ei gofrestrriad NMC drwy gydol rhediad y cwrs. Dylid rhoi trefniadau lleol ar waith i sicrhau hyn.

Mae cyd-gyfrifoldeb gan fyfyrwyr a'u cyflogwr/sefydliad lletyol i sicrhau bod eu cofrestrriad NMC yn parhau i fod yn gyfredol drwy ystod eu cwrs.

## Ffioedd Cwrs

Mae'r ffioedd cwrs ar gyfer pob myfyriwr dan gontract yn daladwy ar dderbyn anfoneb gan y Darparwr Addysg. Bydd AaGIC yn talu cost y ffioedd cwrs cytunedig ar gyfer yr holl fyfyrwyr dan gontract ar gyrsiau SCPHN llawn-amser, rhan-amser neu fodiwlaid.

## Cymhwyster

Nid yw cyllid y GIG ar gael i nyrsys sydd eisoes ar ran 3 o'r gofrestr, sy'n ceisio ail gofrestrriad ar gyfer yr un adran o'r gofrestr. Er enghraifft, ni fyddai gan ymwelydd iechyd sydd wedi'i gofrestru gan y wladwriaeth, sy'n ceisio cwblhau rhaglen nyrsio ysgolion, yr hawl i gyllid gan y GIG. Gall geisio cyllid ar gyfer yr hyfforddiant hwn gan ei gyflogwr.

## Absenoldeb oherwydd Salwch

Bydd AaGIC yn ad-dalu costau ar ran y cyflogwr/sefydliad lleolyol sy'n gysylltiedig ag absenoldeb myfyrwyr yn ystod cyfnod y cwrs. Mae myfyrwyr yn gyfan gwbl gyfrifol am hysbysu'r Sefydliad Addysg Uwch (SAU) a'u lleoliad clinigol ynghylch absenoldebau oherwydd salwch, gan gadw at bolisi salwch eu cyflogwr.

Os bydd angen estyniad cyllid ar fyfyrwr oherwydd absenoldeb astudio er mwyn sicrhau cyflawniad llwyddiannus, rhaid i'r SAU (nid y myfyrwr) gyflwyno cais am gyllid estynedig i AaGIC drwy gwblhau atodiad A a'i ddychwelyd at AaGIC naill ai drwy'r post neu drwy e-bost. Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod/haeddiant. Cyfeiriwch bob cais am estyniad at [ETfinance.HEIW@wales.nhs.uk](mailto:ETfinance.HEIW@wales.nhs.uk).

## Absenoldeb Mamolaeth/Tadolaeth

Dylai myfyrwyr gadw at bolisi Mamolaeth, Mabwysiad, Tadolaeth ac Absenoldeb Rhiant eu cyflogwr/sefydliad lleolyol. Ad-delir costau cyflogwr, sy'n deillio o absenoldeb myfyrwr yn sgil absenoldeb mamolaeth, gan AaGIC ar yr amod bod cais yn cael ei gyflwyno gan y SAU.

Os oes angen estyniad hyfforddiant ar fyfyrwr o ganlyniad i absenoldeb mamolaeth, dylai'r SAU ofyn yn ffurfiol am nawdd ychwanegol gan AaGIC drwy gwblhau atodiad B a'i ddychwelyd i AaGIC naill ai drwy'r post neu drwy e-bost.

## Gwyliau Blynyddol

Bydd AaGIC yn ariannu pob myfyrwr dros gyfnod llawn y cwrs. Bydd hyn yn cynnwys hawl i wyliau a gronnwyd yn ystod y cwrs y dylid ei gymryd yn ystod cyfnodau gwyliau academaidd. Mae'n ofynnol i fyfyrwyr gymryd pob hawl i wyliau blynyddol, gan gynnwys gwyliau cyhoeddus y maent wedi'u cronni rhwng 1 Ebrill a dechrau'r cwrs, cyn i'r cwrs ddechrau. Rhaid cymryd yr holl wyliau sy'n cronni yn ystod y cwrs, gan gynnwys gwyliau cyhoeddus, yn ystod gwyliau academaidd arferol a chyfnodau absenoldeb astudio. Nid oes hawl i unrhyw wyliau ychwanegol yn ystod rhediad y cwrs. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu angen eglurhad pellach, yna cysylltwch â'ch Cynrychiolydd Adnoddau Dynol Lleol.

**Atodiad A****Ffurflen Gais am Estyniad Cyllid**

Darparwr Addysg:
Enw'r Myfyriwr:
Cwrs:

Dyddiad Cychwyn ar y Cwrs:
Dyddiad Dechrau'r Absenoldeb (dd/mm/bb):
Dyddiad Ailgychwyn Disgwyliedig (dd/mm/bb):
Cyfnod Derbyn y Dychwelir iddo (mm/bb):
Hyd yr Estyniad a Geisir:
Dyddiad Disgwyliedig Cwblhau'r Cwrs:

Swm y Cyllid Ychwanegol a Geisir (£)	£
Costau Bwrsariaeth / Cyflog	£
Dibynyddion a Lwfansau Eraill	£
Gofal Plant	£
Nawdd contract	£ DIM
Cyfanswm	£ <input type="text"/>





4. A yw Tiwtor y Cwrs yn cadarnhau bod y myfyriwr yn annhebygol o gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus **heb** estyniad wedi'i ariannu?

Eglurwch eich rhesymau dros gyflwyno'r ateb uchod gan ddarparu tystiolaeth ble bo'n briodol.

**Llofnodwyd gan:**

Cyfarwyddwr y Cwrs

**Dyddiad:**

*Yr wyf yn datgan bod gwarantu'r fwsariaeth neu'r cyllid ychwanegol hwn, gan gymryd i ystyriaeth lefel y gost ychwanegol a'r tebygolrwydd y bydd y myfyriwr yn cymhwyso, yn rhoi'r gwerth gorau am arian yn fy marn i.*

**Llofnodwyd gan:**

Pennaeth yr Ysgol

**Dyddiad:**

**Nodwch:**

Bydd angen cyflwyno ceisiadau am Absenoldeb Mamolaeth drwy ffurflen BUR101 (MAT) A fydddech cystal â dychwelyd ffurflenni wedi'u llenwi at:

Cyllid AaGIC, Tŷ Dysgu, Cefn Coed, Parc Nantgarw, CF15 7QQ

**E-bost:** [ETFinance.HEIW@wales.nhs.uk](mailto:ETFinance.HEIW@wales.nhs.uk)

***Bydd ffurflenni'n cael eu dychwelyd os bernir bod y manylion a ddarperir yn annigonol***

**Atodiad B Bwrsariaethau/Cyflogau GIG i Fyfyrwyr ar Gyrsiau Gweithwyr Iechyd Proffesiynol yng Nghymru**

**HYSBYSIAD ABSENOLDEB MAMOLAETH MYFYRIWR**

**1. Manylion y Cwrs**

Enw'r Cwrs

Enw'r Brifysgol/Coleg

Blwyddyn

**2. Manylion y Myfyriwr**

Enw'r Myfyriwr

Cyfeirnod y Myfyriwr

**3. Absenoldeb Mamolaeth**

3.1 Dyddiad dechrau'r Absenoldeb Dyddiad  /  /

3.2 Dyddiad Dychwelyd Disgwyliedig Dyddiad  /  /

3.3 Dyddiad Disgwyliedig Cwblhau'r Cwrs Dyddiad  /  /

**4. Awdurdodiad (i'w gwblhau gan y swyddog dynodedig yn y brifysgol/coleg)**

Sylwadau

**Yr wyf yn cadarnhau bod y manylion a ddangosir uchod, hyd eithaf fy ngwybodaeth i, yn gywir.**

Llofnod

Dyddiad  /  /

**Cyswllt Cyllid (i gadarnhau gwybodaeth am daliadau):**

Enw

Ffôn/E-bost

**BUR 101 MAT**